# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 15 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, J.E. Williams a A. Lenny

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.T. Williams a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio W/37518;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu a Threftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y Dwyrain]
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
C Davies, Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cydgysylltu Cynllunio)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir: 10.00 am - 12.15 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Jones a G.B. Thomas.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 5.1 Cais Cynllunio - W/37518 - Amrywio Amod 2 o W/35339 er mwyn newid uchder tŷ i alluogi'r atig i gael ei ddefnyddio fel ystafell snwcer at ddefnydd personol ar lain ger Cwm Parc, Peniel, Caerfyrddin, SA32 7HT | Yn adnabod yr ymgeisydd; |
| K. Lloyd | 5.1 Cais Cynllunio – W/37871 – Gosod plac glas ar y ffasâd blaen i goffáu Alice Abadam (1856-1940) ym Mhorth Angel, 26 Heol Picton, Caerfyrddin, SA31 3BX | Bu'r Cynghorydd Lloyd yn bresennol pan ddadorchuddiwyd y plac (cafodd y plac wedyn ei dynnu i ffwrdd cyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch y cais presennol am Ganiatâd Adeilad Rhestredig); |

| | | |
|---|---|---|
| A. Lenny | 5.1 Cais Cynllunio – W/37871 – Gosod plac glas ar y ffasâd blaen i goffáu Alice Abadam (1856-1940) ym Mhorth Angel, 26 Heol Picton, Caerfyrddin, SA31 3BX | Byddai'r plac yn cael ei osod ar eiddo'r Cynghorydd Lenny. |

**3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, gan ystyriwyd ei fod yn cyd-fynd â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 a Pholisi GP1:**

| | |
|---|---|
| **E/37466** | **Adeiladu sied amaethyddol a thrac mynediad ar gyfer storio offer fferm, gwair a bwyd anifeiliaid ar dir ger Bron yr Haul, Llansawel, Llandeilo, SA19 7PE** |

**4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:**

| | |
|---|---|
| **S/36098** | **Datblygu 2 breswylfa ar dir ar Heol Bronallt, Yr Hendy, Abertawe, SA4 0UD** |
| **S/36934** | **Adeiladu 48 uned breswyl ynghyd â gwaith tirweddu a mynediad cysylltiedig ar dir i'r dwyrain o Heol y Plas, Llannon, Llanelli SA14 6AX**<br><br>[**SYLWER:** Mae awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio gytuno ar fanylion cyswllt priodol i gerddwyr wrth ymgynghori â Swyddogion Priffyrdd a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r cynllun.] |
| **S/37753** | **Newid defnydd gosodiadau preswyl i fod yn 2 fflat 1 ystafell wely a 2 fflat 2 ystafell wely yn Avenue Villas, Stryd Lloyd, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 2PU** |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **W/37518** | **Amrywio Amod 2 o W/35339 er mwyn newid uchder tŷ i alluogi'r atig i gael ei ddefnyddio fel ystafell snwcer at ddefnydd personol ar lain ger Cwm Parc, Peniel, Caerfyrddin, SA32 7HT**<br><br>[**Sylwer**: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd K. Lloyd Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r datblygiad arfaethedig ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, ac roeddynt yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cais ôl-weithredol;<br>• Graddfa/maint y breswylfa a adeiladir;<br>• Cynnydd yn uchder cyffredinol y breswylfa;<br>• Effaith weledol y breswylfa a adeiladir ar yr ardal leol uniongyrchol ac yn ehangach;<br>• Edrych dros safleoedd eraill a cholli preifatrwydd;<br>• Mynd yn groes i'r cynlluniau a ganiateir h.y. graddfa/uchder/ffenestri;<br>• Diffyg camau gorfodi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol;<br>• Diffyg lle ar gyfer troi cerbydau.<br><br>Gwrthododd yr ymgeisydd wahoddiad i ymateb.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Cynllunio i'r materion a godwyd. |
| **W/37871** | **Gosod plac glas ar y ffasâd blaen i goffáu Alice Abadam (1856-1940) ym Mhorth Angel, 26 Heol Picton, Caerfyrddin, SA31 3BX**<br><br>[**Sylwer**: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd A. Lenny a'r Cynghorydd K. Lloyd Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno. Y Cynghorydd H.I. Jones a gadeiriodd y cyfarfod tra oedd y cais hwn dan sylw.] |

**5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safleoedd:-**

| | |
|---|---|
| **W/35898** | **Adeiladu gweithdy/garej fasnachol ar gyfer Sarnau Motors ar gae ger Hafod Bakery, Heol Llysonnen, Bancyfelin, Caerfyrddin;**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle mewn perthynas â mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwyedd; |
| **W/37484** | **Adeiladu preswylfa ar gyfer perchnogion a gweithredwyr y cwrs golff cyfagos; ynghyd ag adeiladu storfa ar gyfer peiriannau cynnal a chadw'r cwrs golff yng Nghlwb Golff Derllys Court, Heol Llysonnen, Bancyfelin, Caerfyrddin, SA33 5DT;**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle mewn perthynas â'r ardal gyfagos, hygyrchedd cyhoeddus a chynaliadwyedd. |

**6. COFNODION - 2AIL HYDREF 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 gan eu bod yn gywir.**

**7. COFNODION - 18FED HYDREF 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018 gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**